# Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 4 Rhagfyr 2003 |
| Amser: | 09.00 |
| Lleoliad: | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Teitl: | Rhaglen Waith Y Comisiwn Ewropeaidd 2004 |

## Diben

1. Hysbysu'r Aelodau ynghylch y blaenoriaethau a amlinellir yn Rhaglen Waith Y Comisiwn Ewropeaidd 2004 a gosod y materion hyn yng nghyd-destun blaenoriaethau Cymru yn ystod yr un cyfnod. Rydym wedi defnyddio termau polisi a ddefnyddir yn y Cynulliad gan amlaf i ddisgrifio cynlluniau'r Comisiwn.

## Cefndir

2. Bydd 2004 yn flwyddyn o newidiadau mawr i'r UE. Bydd deg Aelod-Wladwriaeth newydd yn ymuno ar 1 Mai 2004. Yn fuan wedyn, bydd Cytundeb Cyfansoddiadol newydd yn cael ei lofnodi. Ym mis Mehefin bydd pleidleiswyr yn ethol Senedd Ewrop newydd a bydd Comisiwn newydd yn dechrau ar ei waith ar 1 Tachwedd.

3. Golyga'r newidiadau hyn y bydd 2004 yn flwyddyn anarferol o ran rhaglennu ar gyfer sefydliadau'r UE. Mae'r Comisiwn wedi ymateb drwy gynhyrchu Rhaglen Waith fyrrach nag arfer sy'n canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei gyflawni yn hytrach nag ar restr hir o ddyheadau.

4. Mynd i'r afael â'r UE ar raddfa fwy yw'r brif flaenoriaeth wleidyddol. Mae'r darpar wledydd wedi bod yn cysgodi sefydliadau'r UE ers cryn amser ond bydd eu cynnwys yn codi'r gwaith i lefel newydd. Mae'r Comisiwn yn pennu sefydlogrwydd a thyfiant cynaliadwy fel blaenoriaethau cysylltiedig ar gyfer 2004.

5. Mae rhagor o drafodaethau penodol rhwng y Comisiwn a'r sefydliadau eraill wedi bod yn nodwedd o Lywyddiaeth Prodi. Ymgynghorwyd â'r Senedd ac â'r Cyngor ynghylch cynlluniau'r Comisiwn ar gyfer

2004, ac ymgynghorwyd â'r Comisiwn ac â'r Senedd ynghylch cynllun strategol aml-flynyddol ar gyfer 2004-06, a oedd yn cynnwys themâu cyffredin ar gyfer y llywyddiaethau chwemisol cylchredol yn ystod y cyfnod hwn.

## Rhaglen Waith y Comisiwn

Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

6. Ar ôl diwygio'r PAC ar raddfa fawr yn 2003, mae'r rhaglen ar gyfer 2004 yn gymharol ysgafn. Bydd cynnig diwygio mewn perthynas â dyfodol y cymorth ar gyfer Datblygu Gwledig rhwng 2007 a 2013. Gallai cynigion y Comisiwn gynnwys cymryd adnoddau o'r cyllidebau presennol ar gyfer Datblygu Gwledig, LEADER ac Amcan 1 er mwyn sefydlu Cronfa Datblygu Gwledig unigol. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r DU unioni'r cydbwysedd o ystyried ei chyfran isel hanesyddol o'r gyllideb Datblygu Gwledig drwy ychwanegu at y fformiwla ailddosbarthu a gymeradwywyd eleni. Bydd Cyfathrebiad ar gynllun gweithredu yn y Gymuned ar gyfer ffermio organig yn cael ei gyhoeddi. Bydd adroddiad ar weithredu Strategaeth Goedwigaeth yr UE yn cael ei gyhoeddi yn y cyfnod hwn yn ogystal.

7. Mae cynigion y Comisiwn sydd eisoes ar y gweill ac a fydd yn cael eu datblygu yn 2004 yn cynnwys:

Diogelu anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo;

Rheoliad arfaethedig ynghylch rheolaethau swyddogol ar borthiant a bwyd;

Rheoliad arfaethedig ynghylch y lefelau presenoldeb uchaf o blaladdwyr mewn cynnyrch sy'n tarddu o blanhigion ac anifeiliaid;

Rheoliad arfaethedig ar gyfer glanweithdra porthiant;

Mesurau dilynol ynghylch diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (gwella stociau o benfreision a chegddu).

Yr Amgylchedd

8. Rhagwelir cynnal rhaglen waith sylweddol mewn perthynas â'r amgylchedd ar gyfer 2004, a fydd yn cynnwys llawer iawn o faterion a gariwyd drosodd o eleni. Bydd y Comisiwn yn mynd ati i geisio mabwysiadu chwe strategaeth thematig sylweddol fel rhan o'r 6ed rhaglen weithredu Amgylcheddol yn y Gymuned: gwastraff, plaladdwyr a phridd. Bydd strategaeth bellach yn hyrwyddo lleihau gollyngiadau o fercwri i'r aer yn cael ei chyhoeddi'n ddiweddarach yn y flwyddyn.

9. Bydd Cynllun Gweithredu trawsbynciol ar gyfer Yr Amgylchedd ac Iechyd 2004-2010 yn cael ei gyhoeddi i hyrwyddo dealltwriaeth dda o'r cyswllt rhwng ffactorau amgylcheddol a gwahanol glefydau ac anhwylderau, ac yn arbennig rhai sy'n gysylltiedig â phlant. Bydd y Comisiwn yn cynnig mesurau i gyflwyno lleihad o oddeutu 8% (i'w gyflawni yn ystod 2008 - 2012, o'i gymharu ag 1990) er mwyn bodloni targedau'r UE ynghylch gollyngiadau nwyon ty gwydr a gymeradwywyd o dan brotocol Kyoto.

10. Ymysg cynigion y Comisiwn y mae angen cymryd camau gweithredu deddfwriaethol yn eu cylch yn 2004 mae:

Cyfarwyddeb ynghylch Atebolrwydd Amgylcheddol;

Cyfarwyddeb ynghylch Dwr Ymdrochi;

Rheoli Gwastraff o ddiwydiannau cloddiol;

Cynnig REACH ynghylch cofrestru cemegion;

Cyfarwyddeb yn amddiffyn dwr daear rhag llygredd.

Iechyd a Materion Cymdeithasol

11. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno cynigion fframwaith ar gyfer cydlynu mentrau ynghylch cynnyrch peirianneg o feinwe ddynol. Honnir bod ymrannu arferion cenedlaethol yn creu dulliau anghyson ar draws yr UE.

12. Nod y Comisiwn yw symud tuag at ganllawiau cyffredin ar gyfer polisïau cyflogaeth a ategir gan broses adolygu flynyddol. Ym mis Ionawr bydd y Comisiwn yn cyflwyno ei adroddiad blynyddol ar strategaeth Lisboa (Lisbon) â chynigion o ran camau gweithredu nesaf ar gyfer y 12 mis nesaf. Mae'r mesurau ychwanegol yn cynnwys:

Cyfathrebiad ynghylch cydweithredu mewn perthynas ag iechyd ac anghenion yr henoed;

Adroddiad blynyddol ar wyddorau bywyd a biotechnoleg;

Adroddiad ar gynnydd polisïau rheoli tybaco mewn Aelod-Wladwriaethau;

Rheoliad yn sefydlu canolfan Ewropeaidd ar gyfer atal a rheoli clefydau;

Cydgysylltu nawdd cymdeithasol.

Datblygu Economaidd

13. Bydd y Rheoliad Cronfeydd Strwythurol Drafft (ar ôl 2006) a'r persbectif ariannol drafft nesaf (i bob pwrpas, cyllideb arfaethedig yr UE ar ôl 2006) yn cael eu cyhoeddi yn 2004. Efallai na fydd penderfyniadau terfynol ynghylch dyfodol Cronfeydd Strwythurol yn cael eu gwneud hyd 2005, er y disgwylir i lefel y drafodaeth gynyddu yn ystod 2004.

14. Bydd y canllawiau presennol mewn perthynas â chymorth y wladwriaeth ar gyfer achub ac ailstrwythuro yn dod i ben ym mis Tachwedd 2004. Mae canllawiau newydd, a gyhoeddir y flwyddyn nesaf, yn debygol o wneud ymyrraeth o'r fath yn fwy anodd. Y Comisiwn, ac nid y Cyngor, fydd yn cymeradwyo'r canllawiau newydd o dan bwerau y dyfarnwyd iddo gan y Cytundebau.

15. Bydd Cyfathrebiad gan y Comisiwn ar "Industrial Policy in an Enlarged EU", y bwriedir ei gyhoeddi ym mis Mawrth, o ddiddordeb, ynghyd â'r Rhaglen ar gyfer cystadleugarwch mentrau, sy'n targedu mentrau bach a chanolig er mwyn rhoi agenda Lisboa ar waith.

Addysg, Diwylliant a Phobl Ifanc

16. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer cenhedlaeth newydd o raglenni ym meysydd diwylliant, clyweledol, pobl ifanc ac addysg ar gyfer y cyfnod 2007 - 2013. Mae sawl sefydliad yng Nghymru eisoes yn elwa ar raglenni trawsgenedlaethol o'r fath a gefnogir gan y Comisiwn - a gallai eraill elwa yn y dyfodol, fel y rhwydwaith ar Ddysgu Gydol Oes y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn aelod amlwg ohono.

17. Bydd materion addysg yn flaenllaw yn yr adroddiad ar agenda Lisboa gan fod hyfforddiant yn ddull pwysig o roi'r agenda ar waith. Bwriedir cynnal ymgynghoriadau aneddfwriaethol ar gyfer archwilio cystadleugarwch yn niwydiant clyweledol yr UE a Chymorth y Wladwriaeth ym maes cynhyrchu sinema a theledu.

Y Gymdeithas Wybodaeth, Arloesi ac Ynni

18. Bwriedir cyhoeddi adroddiad ar strategaethau cenedlaethol ynghylch polisïau Band Eang ym mis Ebrill - bydd o ddiddordeb o ystyried Cynllun Band Eang Cymru y Cynulliad. Bydd amodau newydd ar gyfer trwyddedu eiddo deallus yn cael eu cyflwyno drwy reoliad. Gallai hyn arwain at ganlyniadau i gwmnïau arloesol Cymru. Bydd Cyfarwyddeb Masnach Gollyngiadau yn ei le erbyn diwedd 2004 a fydd â goblygiadau i gynhyrchwyr ynni a diwydiannau dwys o ran ynni, ac yn arbennig y rhai sy'n dibynnu ar danwydd mwynau a thanwydd ffosil. Bydd cynllun gweithredu ynghylch arloesi yn cael ei gyhoeddi a allai ategu "Cymru O Blaid Arloesi" ac yn diffinio targedau y gallai anelu at eu cyflawni.

## Goblygiadau Ariannol

19. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r papur hwn.

Rhodri Morgan

Prif Weinidog Cymru